

# POLISI ADNEUAETH GWASANAETH ARCHIFAU

## Amodau Cyffredinol Adneuaeth

1. Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn derbyn dogfennau o ddiddordeb hanesyddol a lleol er mwyn gofalu a'u cadw i ddefnydd y cyhoedd, un ai fel rhodd neu ar fenthyg. Mae'r pwerau hyn yn unol â'r hyn a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol (Cofnodion) 1962.
2. Mabwysiadwyd polisi cyffredinol y Gwasanaeth Archifau ar gaffaeliad, gan Gyngor Sir Gwynedd yn 1991, ac fe'i adolygir pob pum mlynedd, i ddechrau yn 1996.

## 3. Adneuaeth

(i) Dogfennau adneuaeth i barhau'n eiddo yr adneuwr a'i etifedd yn ôl y gyfraith. Cyfrifoldeb yr adneuwr ydyw i sicrhau yr hysbysir y Gwasanaeth Archifau o unrhyw newid cyfeiriad a/neu drosglwyddiad perchnogaeth y dogfennau (un ai trwy etifeddu neu fel arall).

(ii) Cedwir yr hawl gan y Gwasanaeth Archifau i wrthod dogfennau neu i ddychwelyd unrhyw ddogfennau na ystyrir yn haeddu cadwraeth barhaol, i'r adneuwr neu gyda chaniatâd yr adneuwr, i ddinistrio dogfen o'r fath.

## 4. Cadwedigaeth

(i) Cedwir y dogfennau yn Archifdai yr Awdurdod mewn amgylchedd a ystyrir yn dderbyniol ar gyfer slotio dogfennau'r Awdurdod ei hun yn ogystal â Chofnodion Cyhoeddus adneuir ar gyfarwyddyd yr Arglwydd Ganghellor.

(ii) Fe gymerir pob gofal rhesymol gan yr Awdurdod er mwyn diogelu'r dogfennau rhag difrod, colled neu ladrad ond na fydd fel arall yn gyfrifol os bydd i'r dogfennau gael eu difrodi colli neu'u lladrata.

## 5. Cadwraeth

Bydd hawl gan yr Archifdy i ddefnyddio'i ddisgresiwn:

(i) i dynnu llun, feicroffilmio neu lungopïo dogfennau.

(ii) i rifo dogfennau ar gyfer adnabod a diogelwch.

(iii) cynnal gwaith cadwraeth pan ystyrir yn angenrheidiol gan y Prif Archifydd a Swyddog Etifeddiaeth.

(iv) cyfyngu neu arbed mynediad cyhoeddus i'r dogfennau os mewn cyflwr bregus hyd nes y cynhelir gwaith cadwraeth.

## 6. Rhestru

Rhestrir dogfennau fel rhan o raglen catalogio y Gwasanaeth Archifau ac yn unol ac ymarfer catalogio presennol y Gwasanaeth Archifau. Mae hawl gan yr adneuwr i

dderbyn copi o gatalog o'u dogfennau ond erys hawlfraint y catalog gyda'r Cyngor. Gellir darparu copi o'r catalog i bersonau/cyrff eraill os ystyrir hynny'n briodol gan y Prif Archifydd a Swyddog Etifeddiaeth.

## 7. Mynediad

- (i) Bydd y dogfennau ar adneuaeth ar gael i'r cyhoedd am ddim i bwrpas ymchwil academiaidd yn Archifdai'r Sir yn ystod yr oriau agor a hysbysebir.
- (ii) Trwy gytundeb rhwng yr adneuw'r a'r Prif Archifydd, gellir gosod cyfyngiadau ar fynediad cyhoeddus i ddogfennau unigol ar adneuaeth.
- (iii) Gall adneuwyr archwilio eu dogfennau yn yr Archifdai yn ystod oriau agor trwy drefniant ymlaen llaw.
- (iv) Yn ddibynol ar ddeddfwriaeth hawlfraint, gellir darparu copïau i aelodau o'r cyhoedd ar gyfer pwrpas astudiaeth ac ymchwil.
- (v) Rhoddir caniatâd gan y Prif Archifydd i gyhoeddiad air am air, dogfennau adneuaeth, yn rhannol neu'n llawn, ar yr amod y rhoddir cydnabyddiaeth briodol i'r adneuw'r gan y cyhoeddwr.
- (vi) Gellir symud dogfennau o'r Archifdai i bwrpas arddangosfa os ydyw'r Pri Archifydd yn fodlon y darperir diogelwch rhesymol ar gyfer y dogfennau.
- (vii) Ni chaniateir unrhyw gais i gyflwyno dogfennau adneuaeth ar gyfer defnydd datganedig mewn materion cyfreithiol, heb ganiatad yr adneuw'r, oni gorchmynnir eu cyflwyniad gan y llys.

## 8. Tynnu Ymaith

- (i) Gellir tynnu ymaith dogfennau adneuaeth dros-dro gan yr adneuw'r am gyfnod a ystyrir yn rhesymol ar unrhyw adeg, cyn belled ag y cyflwynir rhybudd ysgrifenedig 5 diwrnod ymlaen llaw.
- (ii) Bydd yn ofynnol i adneuw'r sy'n dymuno tynnu ymaith ei ddogfennau ar sail parhaol, gyflwyno rhybudd ysgrifenedig o un mis calendr. Cedwir yr hawl gan y Gwasanaeth Archifau i wneud copi o'r ddogfennau ac i gadw'r copïau fel eiddo yr Awdurdod yn dilyn dychwelyd y dogfennau. Bydd y Gwasanaeth Archifau yn parhau i sicrhau mynediad cyhoeddus i gopïau o'r math, oni wrthodir eu cyhoeddiad gan yr adneuw'r.
- (iii) Mae'r Gwasanaeth Archifau yn cadw'r hawl i godi ffi er mwyn ei ddigolledu am y costau a wireddwyd yng nghyswllt catalogio, cadwraeth a storio os y tynnir ymaith gasgliad ar adneuaeth yn parhaol.
- (iv) Mae'n rhaid i'r adneuw'r neu unrhyw berson arall sydd am dynnu ymaith dogfennau ar sail dros-dro neu parhaol, un ai fel perchennog neu asiant, brofi ei hawl i dderbyn y ddogfennau i foddhad yr Awdurdod.

## **9. Cofnodion Plwy**

Adneuir Cofnodion Plwy yr Eglwys yng Nghymru yn unol a chytundeb a wnaed rhwng Archifdai Awdurdodau Lleol a'r Eglwys yng Nghymru.

## **10. Rhoddion**

Daw dogfennau a dderbynnir fel rhoddion, yn eiddo llwyr Cyngor Gwynedd i'w cadw yn Archifdai Gwynedd. Nid yw'r telerau cytundeb hyn yn berthnasol i roddion fel hyn.